

**% o'r holl weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector cig coch**



**Gweithdai Iechyd a Lles anifeilaid** (sy'n berthnasol i'r sector Cig Coch)



Rheoli Ffrwythlondeb y Ddiadell

Cynyddu cynhyrchiant gwartheg sugno i'r eithaf

Rheoli Parasitiaid mewn Gwartheg

Cloffni mewn Defaid

Gwella perfformiad ŵyn ar ôl diddychu

## Rhwydwaith Arddangos


**Rhiwaedog: Gwerthuso manteision technoleg synhwyro pan fo buwch yn gofyn tarw er mwyn sicrhau enillion o ran ffrwythlondeb y fuches sugno**

Roedd y cyfnod lloea yn Rhiwaedog yn ymestyn o fis Chwefror i fis Hydref, oherwydd problemau gyda ffrwythlondeb dau o'r teirw stoc. Arweiniodd hyn at broblemau wrth reoli'r cyfnod lloea a grwpio'r gwartheg stôr ar gyfer eu gwerthu. Cyn dechrau'r prosiect, y cyfnod lloea oedd 392 diwrnod.

Er mwyn lleihau'r cyfnod lloea, rhoddwyd tagiau electronig MooCall HEAT ar yr holl wartheg, a rhoddwyd coler electronig MooCall HEAT ar y teirw stoc. Mae'r coler yn defnyddio gwybodaeth am agosrwydd, ymddygiad a lefelau gweithgarwch y teirw a'r gwartheg i bennu pryd mae'r gwartheg yn gofyn tarw, ac yna anfonir neges trwy'r ap neu mewn neges destun at y ffermwr.

Cafodd unrhyw wartheg nad oeddynt yn gofyn tarw eu harchwilio gan filfeddyg a'u trin gan hynny, neu, os yn briodol, cafodd ofwliad ei syncroneiddio â CIDRs (dyfeisiau mewngroth sy'n rhyddhau progesteron).

Yn 2021, arweinodd y camau hyn, ar y cyd ag archwiliadau cyn-lloea, at leihau'r cyfnod lloea (o fis Mawrth i fis Medi), ond gydag 84% o wartheg yn lloea yn y pedwar mis cyntaf. 5% yn unig wnaeth fwrw lloea ym mis Awst a 4% ym mis Medi.



Ffigur 1. canlyniadau ymddygiad a lefelau gweithgarwch y teirw.


Defnyddiwyd y dechnoleg unwaith eto yn ystod tymor bridio 2021, ac o ganlyniad mae'r cyfnod lloea wedi lleihau ymhellach – o fis Chwefror i fis Awst yn 2022, gyda bron i hanner y fuches (35 buwch) yn lloea ym mis Mai.

## Hendre Ifan Goch: Gwella twf ŵyn i'r eithaf – archwiliad elfennau hybrin

Mae Rhys Edwards yn gofalu am ddiadell o 530 o famogiaid a 180 o ŵyn sy'n famogiaid gyda'i rieni Russell ac Eira, yn Hendre Ifan Goch, sy'n safle arddangos cig coch. Roedd y ffermwyr yn anffodlon â pherfformiad eu hŵyn felly cytunwyd cynnal archwiliad elfennau hybrin o dan law Phillipa Page, Flock Health Ltd.

Er mwyn cynnal archwiliad elfennau hybrin, edrychwyd ar y cyflenwad o elfennau hybrin dros gyfnod o 12 mis. Roedd hyn yn cynnwys cyflenwad dŵr, samplau porthiant, porthiant ychwanegol, blociau llyfu/bwydo, drenshys a bolysau a roddwyd i'r ddiadell. Yna cafodd y symiau a roddwyd eu hystyried yn erbyn gofyniad elfennau hybrin y grwpiau stoc gwahanol. Yn dilyn hyn, ystyriwyd a oedd angen unrhyw ychwanegion i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

Dangosodd canlyniadau'r archwiliad nad oedd unrhyw bryder mawr o ran cyflenwad y rhan fwyaf o'r macrofaetholion, ond roedd samplau glaswellt 2020 a ddefnyddiwyd yn yr archwiliad yn ddiffygiol o ran iodid, ac roedd diffygion llai o ran seleniwm a cobalt pan gawsant eu hasesu yn erbyn gofynion dietegol stoc o'r dosbarth hwn.



Ffigur 2. Canlyniadau'r archwiliad elfennau hybrin.

Mae'r graffiau uchod yn dangos bod y cyflenwad iodid o'r borfa yn is na'r gofynion ar gyfer mamogiaid ac ŵyn sy'n tyfu.

Roedd lefelau cyfredol yr ychwanegion a roddwyd i'r mamogiad ar ffurf bolws neu ddrensh yn ddigonol ar gyfer seleniwm a cobalt, ond nid oedd yr ychwanegion hyn yn cynnwys iodid. Felly, argymhellwyd bod ychwanegyn cyn-wyna a chyn-hwrdda yn cael ei ddefnyddio a oedd yn cynnwys iodid, seleniwm a cobalt.

## Y Gyfnewidfa Rheolaeth

**Becca Williams**



Gyda chymorth rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio, ymchwiliodd Becca Williams (sy'n ffermio gwartheg, defaid a cheirw gyda'i rhieni ger Llandrindod), i'r cyfleoedd i farchnata cig yn uniongyrchol. Cysylltodd â sawl arbenigwr yn y diwydiant yn ystod y Gyfnewidfa Rheolaeth. I ddysgu rhagor am daith ddysgu Becca a

chanlyniadau ei hymweliadau, ewch i'r [wefan](#) i ddarllen adroddiad llawn gan Becca ei hun.

## Bryn Farm: Tomwellt meillion byw ar dir âr

Nod y prosiect hwn oedd dangos a dilysu bod tomwellt meillion byw yn ddewis hyfyw, cyraeddadwy a phroffidiol i ffermwyr âr yng Nghymru. Ar Fferm Bryn, dewiswyd dau gae a oedd wedi cael eu rheoli mewn ffyrdd tebyg yn hanesyddol, a dangosodd y samplau pridd ganlyniadau tebyg iawn. Cafodd y caeau eu rheoli trwy hau barlys y gwanwyn ar 31/3/2022, ond cafodd meillion gwyn AberPeral ac AberAce eu hau o dan y cnwd mewn un cae. Er mwyn gweld a oedd y meillion yn cael unrhyw effaith ar y barlys, aseswyd y cnwd pan oedd yr had wedi ffurfio yng ngwain y prif ddeilen (*booting stage*).

Field Variable	N	Control Mean	SD	N	Mulch Mean	SD	Test
Establishment Score	5	4.3	0.57	5	5	0	F=7.538***
Vigour Score	5	7.8	0.447	5	9	0	F=36***
Growth Stage BBCH	5	41.8	1.095	5	46.6	0.894	F=57.6***
Crop Groundcover%	5	83	10.368	5	97.4	1.342	F=9.486**
Crop Tiller Number	5	2,032	0.244	5	2,198	0.181	F=1.494
Crop Height, cm	5	55.4	3.382	5	69	2	F=60.444***
Rhynchosporium %	5	2.3	0.758	5	0.2	0.447	F=28.452***
Net Blotch %	5	0.4	0.894	5	10.8	4.087	F=30.903***
Clover Cover%	5	0.4	0.894	5	8.6	1.673	F=93.389***
Weed Cover%	5	58.2	15.43	5	10.6	4.45	F=43.931***

Statistical significance markers: \* p<0.1; \*\* p<0.05; \*\*\* p<0.01

Ffigwr 3. Canlyniadau y samplau pridd.

Mae'r cae â'r tomwellt meillion wedi perfformio'n well na'r cae rheolydd, ond roedd yr achosion o afiechyd deiliol blotyn yn llawer uwch. Pan ddaeth yn amser cynaeafu'r barlys roedd y tywydd wedi bod yn sych iawn dros yr haf, ac roedd sychder mawr ar y fferm. Roedd y boblogaeth feillion yn fach iawn, ond wedi i'r glaw gyrraedd ar ddechrau mis Medi, dechreuodd y meillion aildyfu. Bydd hyn yn rhoi gorchudd tir da nes bydd ceirch y gaeaf yn cael eu hau'n uniongyrchol, a bydd hefyd yn cystadlu yn erbyn y chwyn, yn gwella adeiledd y pridd, yn cynnig cynefin ac, yn dibynnu ar y twf, gallai stoc ifanc bori'r meillion.

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

### Cynhaliwyd 16 diwyddiad, gyda 356 ao fynychwyr

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:



### Cynhyrchu Gwartheg Sugno

Ymunodd Rhidian Jones o RJ Livestock Systems, busnes ymgynghorol yng ngororau'r Alban, â Cyswllt Ffermio ar gyfer gweminar yn trafod cynhyrchu gwartheg sugno. Yn ystod y gweminar, trafodwyd y pynciau canlynol:

Tyfu gwartheg ar laswellt	Rheoli porfeydd
Maeth y fuwch cyn gofyn tarw	Effeithlonrwydd gwartheg sugno
Materion yn ymwneud â ffrwythlondeb	

### Elfennau hybrin yn y system – Gwartheg Biff

Trefnodd Daleside Vets a Cyswllt Ffermio gyfarfod ar y cyd i drafod elfennau hybrin mewn systemau gwartheg biff. Cynhaliodd Pete Bone, maethgydd elfennau hybrin, drafodaeth am anghenion gwartheg biff o ran elfennau hybrin yn eu deiet, a phroblemau iechyd sy'n codi yn sgil diffyg elfennau hybrin neu ormoddedd ohonynt. Trafododd y siaradwr sut i fesur a monitro lefelau mewn 'dog' gwartheg biff, ynghyd â ffyrdd syml o sicrhau eu bod yn gywir.

\*Mae themâu digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol yn aml yn ymwneud â sawl sector, ac maent yn tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector, gan gynnwys y sector Cig Coch.

## EIP Cymru

### Oes rhywbeth yn y dŵr? Adnabod a mynd i'r afael â *Cryptosporidium* mewn defaid sheep



Roedd Mike Lewis a Liz Lewis-Reddy, o Fferm Brynhoveth, ger Llandrindod, ymhlith saith ffermwr ym Mhowys a gychwynnodd ar astudiaeth yr EIP yng Nghymru i ddeall llwybrau haint *cryptosporidiwm* mewn defaid, a nodi mesurau i reoli ac atal y clefyd yn eu diadelloedd.

Er nad oedd y cwpl yn credu bod ganddyn nhw broblem gyda haint ymysg eu defaid, trwy gymryd rhan yn y prosiect, roedden nhw'n gallu olrhain tarddiad *cryptosporidiwm* i'w reoli mewn llooi ac i'w atal rhag trosglwyddo i'w hŵyn.

Trwy waith prosiect yr EIP yng Nghymru, ymgwymerwyd â samplo ffynonellau dŵr da byw ar y ffermydd gan Dŵr Cymru (DCWW), ddechrau mis Mawrth cyn ŵyna, ganol mis Ebrill, ac yng nghanol mis Mehefin, ar ôl ŵyna.

Dangosodd yr astudiaeth fod *cryptosporidiwm* yn cael ei ganfod yn gyffredin ar y ffermydd a oedd yn rhan o'r prosiect, ond yn amlach mewn dŵr nag mewn ŵyn. Darganfu Mike a Liz fod y ficro-organeb yn cael ei chyflwyno i loi trwy ddŵr yr afon; mae'r cae lle mae buchod yn lloia yn y gwanwyn wedi'i leoli wrth ymyl afon sy'n dueddol o orlifo yn y gaeaf, gan arwain at gryptosporidiwm yn y dŵr yn halogi'r borfa.

Mae'r prosiect wedi darparu tystiolaeth i helpu i lywio mesurau ynghylch risg haint ar y fferm.

"Allwn ni ddim rheoli beth sy'n digwydd yn yr afon, ond fe allwn ni gyfyngu'r risg i'n llooi," meddai Liz.

Dywedodd Liz fod y prosiect wedi bod yn sefyllfa lle mae'r ffermwr a DCWW ar eu hennill. Rhoddir toddiant ataliol drwy'r geg i loi ar ôl 24 awr wedi iddynt gael ei geni. Mae'r cynnyrch yn lleihau hyfywedd y *cryptosporidia* yn y perfedd ac yn lleihau'r golled o niferoedd öosystau, gan gyfyngu ar ledaeniad y clefyd. Mae mesurau bioddiogelwch ar ei fferm eisoes yn uchel iawn, ond mae'r opsiynau rheoli a argymhellir i bob ffermwr i gyfyngu ar y risg o *gryptosporidiwm* yn cynnwys:

- Glanhau adeiladau â stêm i ladd öosystau
- Glanhau a diheintio siediau da byw yn aml; mae ymchwil wedi canfod mai hydrogen perocsid 3% a diheintyddion sy'n seiliedig ar hydrogen perocsid yw'r rhai mwyaf effeithiol o ran lleihau hyfywedd öosystau *cryptosporidiwm*. Mae diheintyddion yn llai effeithiol ar öosystau sydd mewn ysgarthion, felly fe'ch cynghorir i lanhau siediau'n drylwyr cyn diheintio.
- Rhoi gwellt oddi tan yr anifeiliaid yn aml
- Gosod anifeiliaid sy'n sgwrio dan gwarantyn
- Sicrhau bod ŵyn a llooi yn cael digon o golostrwm o ansawdd da yn gyflym.

## Cymorthfeydd

**40** O GYMORTHFYDD WEDI'U CYNNAL

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

Cynllunio Llygredd Amaethyddol	Cyfrifyddiaeth
Busnes	TGCh
Isadeiledd	Cymorthfeydd Taliadau Gwledig Cymru (RPW)
Marchnata ac arallgyfeirio	Cyfreithiol
Cynllunio	Cyfraith Amaethyddiaeth ac Olyniaeth

"Roedd busnes wedi gofyn am gynnal Cymorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio – gan ei fod eisieu cyngor ar brosiect arallgyfeirio ar fferm. Bwriad y busnes yw gwerthu ei biff mewn bocsys i bobl leol, ac mae eisieu cyngor ar sefydlu'r busnes hwn – ac yn benodol, y gwaith marchnata."

## Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

-  **CLAFR DEFAID: Y DIWEDDARAF AC YSTYRIAETHAU AT Y DYFODOL**
-  **ARALLGYFEIRIO BUSNES FFERM – O SAFBWYNT YMCHWIL**

## Grwpiau Trafod



### Astudiaeth achos

#### Amaethyddiaeth adfywiol – Grŵp Trafod Biff Gŵyr

Cafodd Ben Taylor Davies, neu 'Regen Ben' fel mae hefyd yn cael ei alw, ei wahodd i siarad â'r grŵp am amaethyddiaeth adfywiol a phwysigrwydd iechyd pridd er mwyn sicrhau dyfodol llawer mwy cynaliadwy i amaethyddiaeth yn y DU.

Dechreuodd Ben ei gyflwyniad trwy esbonio wrth y grŵp beth yn union yw amaethyddiaeth adfywiol, a sut roedd wedi ymddiddori yn hyn tra'n gweithio ar fferm ei deulu yn dilyn damwain deuluol, ynghyd â'i gais am Ysgoloriaeth Nuffield.

Fe wnaeth Ben atgoffa'r grŵp am y tri ffactor sy'n allweddol i iechyd pridd da, sef:



Gofynnodd Ben i'r grŵp ystyried y camau canlynol:

- Amharu ar y pridd cyn lleied â phosibl, boed hynny'n fecanyddol, yn gemegol neu'n ffisegol, gan fod unrhyw amhariad yn dinistrio adeiledd y pridd a'r 'tŷ' mae natur yn ei adeiladu i ofalu am yr organebau byw yn y pridd.
- Gorchuddio. Dylid gorchuddio'r pridd bob amser. Mae natur bob amser yn gweithio i orchuddio pridd ac yn ceisio darparu 'arfwig' i amddiffyn y pridd rhag erydiad gwynt a dŵr, gan roi bwyd a chynefinoedd i'r micro-organebau ar yr un pryd.
- Amrywiaeth. Mae amrywiaeth o gynefinoedd yn annog ecosystemau i weithio.
- Gwreiddiau byw. Maent yn bwydo ac yn cynnal bioleg y pridd trwy ddarparu'r ffynhonnell fwyd sylfaenol, sef carbon.
- Cynnwys anifeiliaid, oherwydd ni all natur weithredu heb anifeiliaid. Mae anifeiliaid sy'n pori'r cnydau yn ysgogi planhigion i gynhyrchu rhagor o garbon ar gyfer y pridd.

Roedd gan y grŵp ddi-ddordeb mewn gwybod rhagor am system ffermio Ben a'r newidiadau mae wedi'u gwneud ar ei fferm, o safbwynt y da byw mae'n eu cadw a'r cnydau mae'n eu cynhyrchu. Esboniodd Ben am y mathau gwahanol o dda byw mae'n eu cadw (gwartheg biff, defaid, geifr, moch ac ieir), a sut maent oll yn gweithio gyda'i gilydd i reoli plâu a chylchdroi cnydau. Hefyd, dangosodd i'r grŵp y newidiadau mae wedi'u gwneud i'w gnydau gwenith. Yn lle defnyddio un amrywogaeth o wenith, mae bellach yn cymysgu hyd at 144 amrywogaeth wahanol er mwyn helpu i leihau'r plâu sy'n mwntan ar y cnwd. Mae'r newid syml hwn i'r system yn golygu bod Ben yn gwario £30,000 yn llai ar ffwngleiddiaid.


O ran cnydau gorchudd a dulliau ffermio naturiol, os gadewch i fyd natur wneud ei waith, mae'n dda iawn am gynhyrchu ei bridd ei hun. Esboniodd Ben ei fod yn cynhyrchu tua modfedd o uwchbridd bob tair blynedd ar ei fferm gyda deunydd organig a dulliau ffermio adfywiol.

Does dim dwywaith fod ffermio adfywiol yn dod yn fwy poblogaidd, ac mae llawer o fusnesau yn treialu'r dulliau hyn mewn un ffordd neu'i gilydd (yn enwedig wrth i gostau mewnbynau godi). Roedd y cyfarfod hwn wedi bwrw goleuni ar fuddion ffermio yn y dull hwn, ac roedd yn gyfle i'r grŵp ofyn pob math o gwestiynau a dysgu gan rywun sy'n arwain y ffordd.

## Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **160** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector cig coch.

Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd: Cyfanswm



## E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

## Mentora

Dros yr Haf, edrychom yn ôl i ddeall pa effaith a gafodd pethynas mentora ar William Williams, ffermwr defaid sy'n ffermio ger Bangor ar ôl iddo dderbyn cefnogaeth gan y mentor CFf, Keith Williams. Dywedodd William:



William Williams

"Rydym yn isrannu'r tir, ar sail awgrymiadau Keith, er mwyn i siapiau'r lleiniau tir sicrhau patrymau pori gwastad, ac rydym wedi osgoi gwneud camgymeriadau costus.

"Mae'r system celloedd wedi arwain at arbedion enfawr ar gostau gwrtaith. Bellach, rydym yn chwalu tua hanner y cyfanswm blaenorol.

"Pan oedd y mamogiaid yn barod i w' yna allan ym mis Ebrill, roedd y glaswellt mewn cyflwr gwych.

"Roedd hi'n fuddiol iawn cael cyfle i sgwrsio'n uniongyrchol â ffermwr defaid profiadol sydd wedi gwneud y gorau o'i dir ei hun trwy weithredu system pori cylchdro dwys debyg.

"Mae cael Keith yn fentor wedi dangos y gallwn ni ddysgu mwy bob amser, ni waeth pa mor hyderus ydym ni yn ein galluedd ein hunain.

## AGRISGÔP

Daeth grŵp Agrisgôp a sefydlwyd i edrych ar werthu cig yn uniongyrchol mewn bocsys i uchafbwynt ym mis Mai 2022 wrth Iddyn nhw gyfarfod am y tro olaf ac aeth 4 aelod o'r grŵp ymlaen i sefydlu mentrau newydd. Roedd y grŵp wedi canolbwyntio ar sut i gydymffurfio gyda rheolau iechyd cyhoeddus, labelu a safonau bwyd yn ogystal ag edrych ar ffyrdd arloesol o werthu, marchnata, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a brandio.

Daeth y rhaglen Agrisgôp bresennol i ben ym mis Awst 2022 ac ers 2015, mae'r rhaglen wedi cefnogi **43** o unigolion i ddeall mwy am werthu eu cig yn uniongyrchol drwy gynllun bocsys.

